## Tabl1 Cynnal a Chadw'ch Heneb Gofrestredig

| **Gweithgaredd** | **Y Risg** | **Arferion Gorau** | **A oes angen gwnud cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig?** |
|---|---|---|---|
| **Cynnal a chadw gwrthgloddiau a safleoedd archaeolegol dan ddaear** | | | |
| Cadw llain porfa sefydlog | Aflonyddu'r pridd | • Lefelau pori priodol. Rheoli chwyn trwy eu torri a thargedu chwynladdwr.<br>• Osgoi troi'r pridd rhag aflonyddu'r tir. | Nac oes |
| Adnewyddu'r borfa | Colli'r archaeoleg bob yn damaid. | • Gofalu nad yw'r tir yn cael ei droi'n ddyfnach na'r troeon cynt. | Oes — os nad oes gwaith o'r fath wedi'i wneud yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf. (Gweler Atodiad 1 — cydsyniad dosbarth 1). |
| Defnyddio cerbydau | Gall rhigolau olwynion ddadorchuddio a difrodi'r archaeoleg. | • Peidiwch â gyrru dros y safle cofrestredig.<br>• Defnyddiwch gerbydau ysgafn neu deiars pwysedd isel, neu gerbydau trac isel eu pwysedd ar y ddaear<br>• Gosodwch un llwybr parhaol i leihau'r effaith. | Nac oes er mwyn defnyddio cerbydau, ond, os ydych yn gosod traciau neu ffyrdd newydd, bydd angen gwneud cais am gydsyniad. |
| Gwaith draenio | Yn rhwystro dŵr rhag crynhoi a'r rhigoli sy'n digwydd yn sgil hynny ond gall gosod draeniau a sychu'r tir ddadorchuddio a difrodi'r archaeoleg. | • Peidiwch â gosod draeniau mewn mannau archaeolegol sensitif. | Oes |

| Gweithgaredd | Y Risg | Arferion Gorau | A oes angen gwnud cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig? |
|---|---|---|---|
| Rheoli prysgwydd/rhedyn | Mae'r gwreiddiau'n difrodi'r archaeoleg. | • Codwch brysgwydd trwy eu torri at eu bôn a'u trin â chwynladdwr i'w rhwystro rhag aildyfu; peidiwch â chodi'r gwreiddiau. | Nac oes, ond efallai y bydd angen trwydded neu gydsyniadau amgylchedd naturiol. |
| Rheoli anifeiliaid sy'n tyllu os caniateir hynny. | Yn difrodi'r archaeoleg. Gall erydu'r gwrthgloddiau a'u dymchwel. | • Rheoli niferoedd.<br>• Codi ffens o gwmpas mannau sensitif. | Nac oes, er y bydd angen trwyddedau amgylcheddol efallai a bydd angen cyflwyno cais er mewn codi ffensys mewn ardal gofrestredig. |
| Ffensio | Gall aflonyddu'r archaeoleg; erydu gan stoc ar hyd y ffens. | • Peidiwch â'u codi yn y safleoedd archaeolegol. Dylech osgoi'r ardal gofrestredig os medrir. | Oes |
| Plannu coed a pherthi/gwrychoedd newydd | Y gwreiddiau'n gwneud difrod. | • Peidiwch â'u plannu yn y safleoedd archaeolegol. Dylech osgoi'r ardal gofrestredig os medrir. | Oes |
| Rheoli coed | Gall gwreiddiau ddifrodi gwrthgloddiau; mae hen goed yn fygythiad os ydyn nhw'n cwympo. | • Torrwch goed marw neu ansefydlog mewn heneb gofrestredig â llaw cyn iddyn nhw gwympo yn y gwynt a difrodi'r heneb. | Nac oes — os ydych yn eu torri at eu bôn gan adael y gwreiddiau heb aflonyddu'r pridd. |
| Cwympo coed a'u clirio | Perygl o daro'r heneb wrth eu symud o'r safle. | • Amddiffynnwch yr heneb gofrestredig yn ystod y gwaith; dylai llwybrau cario'r coed osgoi'r heneb gofrestredig os medrir. | Holwch Cadw ac os oes angen, Cyfoeth Naturiol Cymru a'ch awdurdod lleol. |

| Gweithgaredd | Y Risg | Arferion Gorau | A oes angen gwnud cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig? |
|---|---|---|---|
| Aredig tir âr | Colli'r archaeoleg sydd o dan y pridd bob yn damaid. | • Defnyddiwch y dulliau trin ysgafnaf eu heffaith ar heneb gofrestredig os nad oes unrhyw wrthgloddiau ar ôl; ystyriwch hau â dril neu beidio â thrin ardaloedd sensitif lle mae yna wrthgloddiau. | Caniateir ichi droi'r tir yn rheolaidd trwy gydsyniad dosbarth, ond mae angen gwneud cais ar gyfer gwaith i aredig yr isbridd neu ar gyfer gwaith draenio (gweler Atodiad 1 — cydsyniad dosbarth 1).<br><br>Rhaid cael cydsyniad os ydych yn ei droi am y tro cyntaf. |
| Codi adeilad newydd neu estyniad i adeilad | Colli tystiolaeth archaeolegol trwy osod sylfeini a chysylltu gwasanaethau. | • Peidiwch ag adeiladu ar y safle cofrestredig. | Oes |
| **Cynnal a chadw henebion o waith maen** | | | |
| Rheoli coed a llwyni sy'n tyfu ar neu wrth fôn gwaith maen | Mae gwreiddiau'n tanseilio ac yn niweidio walydd. | • Torrwch y planhigyn at ei fôn a'i drin â chwynladdwr. | Nac oes (oni bai bod y gwreiddiau wedi ymdreiddio'n ddwfn ac yn eang iawn). |
| Rheoli planhigion dringo fel iorwg | Mae gwreiddiau'n tanseilio ac yn niweidio walydd. | • Holwch Cadw am gyngor. Torrwch ganghennau trwm neu ymledol yn ôl at lefel y wal. Peidiwch â thynnu iorwg byw o'r gwaith maen os yw ei afael yn dynn. | Nac oes |
| Monitro cyflwr y gwaith maen | Trwy fynd ati i atgyweirio gwaith maen cyn gynted ag y gwelir dirywiad, gellir osgoi difrod gwaeth. | • Chwiliwch am arwyddion symudiad fel craciau, boliau a cherrig wedi cwympo. Holwch Cadw am gyngor. | Nac oes |
| Rhwystro difrod gan dda byw | Difrod ffisegol trwy rwbio yn erbyn a thanseilio'r gwaith maen. | • Rheoli mynediad at heneb gofrestredig, er enghraifft, eu cadw allan am gyfnod. | Nac oes — oni bai bod angen ffensio'r heneb gofrestredig. |